Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Etholiad y Senedd yn 2021:** Papur briffio

Gorffennaf 2021



ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7270**
E-bost: **Owain.Davies@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2021**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# **Etholiad y Senedd yn 2021:** Papur briffio

Gorffennaf 2021

**Awduron:**
Owain Davies, Owen Holzinger, Joanne McCarthy a Helen Jones

ymchwil.senedd.cymru/

# Contents

**1. Cyflwyniad....................1**

Y Senedd a'r etholiad yn 2021....................1

Y system etholiadol....................1

Ffynonellau data a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn....................2

**2. Crynodeb o ganlyniadau etholiad y Senedd yn 2021....................4**

Crynodeb o'r canlyniadau....................4

Canlyniadau allweddol....................5

Canlyniadau'r etholaethau....................7

Canlyniadau'r rhanbarthau....................8

Mwyafrifoedd....................9

Amrywiaeth....................10

Aelodau newydd o'r Senedd....................12

Y ganran a bleidleisiodd....................13

**3. Canlyniadau manwl yr etholiad....................16**

Crynodeb pleidleisio....................16

Canlyniadau'r etholiad....................18

**4. Ffynhonnell a nodiadau.......................................................35**

Ffynonellau data – pleidleisiau.....................................................................35

Ffynonellau data – nifer yr etholwyr a'r ganran a bleidleisiodd ..........35

Allwedd i godau'r pleidiau ...........................................................................36

# 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau, y pleidleisiau, y cyfrannau a'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Senedd ar 6 Mai 2021. Mae'r bennod hon yn rhoi rhywfaint o gefndir i'r etholiad, y system etholiadol a'r data y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad.

## Y Senedd a'r etholiad yn 2021

Cynhaliwyd etholiad Aelodau o Senedd Cymru ar 6 Mai 2021. Cafodd ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19 ac roedd angen i **rai cyfyngiadau a mesurau** (e.e. cadw pellter cymdeithasol) fod ar waith mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn ystod y cyfrif. Ni chynhaliwyd y cyfrif dros nos am y rheswm hwn, a chyhoeddwyd y canlyniadau ar 7 ac 8 Mai.

Yn y cyfnod cyn yr etholiad, cyflwynodd Llywodraeth Cymru 'Fil Brys' a ddaeth wedyn yn **Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021.** Gwnaeth y Ddeddf nifer o bethau, gan gynnwys:

- rhoi pŵer i alluogi'r Llywydd i ohirio'r etholiad hyd at chwe mis;
- lleihau cyfnod diddymu'r Senedd i saith diwrnod, gan ddechrau ar 29 Ebrill 2021;
- cynnig hyblygrwydd ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy.

Yr etholiad hefyd oedd y cyntaf ers i **Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020** gael y Cydsyniad

Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Ymhlith newidiadau eraill, gostyngodd y Ddeddf honno yr oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Senedd i 16, felly 2021 oedd etholiad cyntaf y Senedd pan oedd gan bobl 16 a 17 oed hawl i bleidleisio.

## Y system etholiadol

Y System Aelodau Ychwanegol yw enw'r system etholiadol yng Nghymru. Mae gan y Senedd 60 o Aelodau etholedig ac mae gan bob etholwr ddwy bleidlais. Defnyddir y bleidlais gyntaf i ethol Aelod lleol neu etholaethol o'r Senedd drwy ddefnyddio system **y Cyntaf i'r Felin**. Caiff deugain o Aelodau o'r Senedd eu hethol ar y sail hon, un o bob etholaeth.

Defnyddir yr ail bleidlais i ethol 20 Aelod ychwanegol o'r Senedd ar sail ranbarthol. Fformiwla **d'Hondt** sy'n cael ei defnyddio i benderfynu pa bleidiau sy'n ennill seddau ar y rhestrau rhanbarthol. Nodir rhagor o wybodaeth yng nghyhoeddiad y Senedd ar y system etholiadol Sut y caiff yr Aelodau eu hethol?.

## Ffynonellau data a ddefnyddir yn y cyhoeddiad hwn

Mae'r ystadegau etholiadol yn y papur hwn wedi'u casglu o ddata a **gyhoeddwyd** gan y BBC. Mae'r pleidleisiau wedi'u cadarnhau gyda chyfeiriad at ffurflenni ystadegol pob etholaeth. Mae'r papur hwn yn cynnwys cymariaethau ag etholiad blaenorol y Senedd, a gynhaliwyd ar 5 Mai 2016. At ddibenion cymharu, mae data a **gyhoeddwyd** gan y Comisiwn Etholiadol wedi'u ddefnyddio ar gyfer etholiad 2016, wedi'u gwirio yn erbyn gwybodaeth a gyhoeddwyd gan y BBC.

Yn ystod y Bumed Senedd, digwyddodd y newidiadau a ganlyn[1]

- Gadawodd Nathan Gill grŵp UKIP ym mis Awst 2016 i eistedd fel Annibynnwr. Ymddiswyddodd fel Aelod ym mis Rhagfyr 2017. Cymerodd Mandy Jones ei le fel Aelod rhanbarthol dros Ogledd Cymru. Nid ymunodd Mandy Jones â grŵp UKIP ar ôl cael ei hethol ac eisteddodd fel Annibynnwr nes ymuno â grŵp Plaid Brexit ym mis Mai 2019. Yn ddiweddarach, ymunodd â'r Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio ym mis Hydref 2020;
- Gadawodd Dafydd Elis-Thomas grŵp Plaid Cymru ym mis Hydref 2016 i eistedd fel Annibynnwr. Ymunodd â Llywodraeth Cymru a daeth yn Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon ym mis Tachwedd 20
- Gadawodd Mark Reckless grŵp UKIP ym mis Ebrill 2017 i ymuno â grŵp y Ceidwadwyr. Ym mis Mai 2019, gadawodd grŵp y Ceidwadwyr i eistedd fel Annibynnwr, cyn ymuno â grŵp Plaid Brexit ym mis Mai 2019. Ymunodd â Phlaid Diddymu'r Cynulliad ym mis Hydref 2020.
- Gadawodd Carl Sargeant grŵp Llafur ym mis Tachwedd 2017, gan eistedd fel Annibynnwr. Bu farw ar 7 Tachwedd 2017. Etholwyd Jack Sargeant ar ran Llafur i gynrychioli Alun a Glannau Dyfrdwy yn yr **is-etholiad** dilynol ym mis Chwefror 2018;

[1] Adeg etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, amlinellodd Rheol Sefydlog 1.3 Senedd Cymru y rheolau ynghylch grwpiau plaid. Nodwyd bod yn rhaid i dri Aelod berthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a ennillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd er mwyn ffurfio grŵp gwleidyddol. Fel arall, câi tri neu fwy o Aelodau o'r un blaid hysbysu'r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol, ac mae'n rhaid bod y Llywydd yn fodlon bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys.

- Gadawodd Neil McEvoy grŵp Plaid Cymru ym mis Ionawr 2018;
- Ymddiswyddodd Simon Thomas fel Aelod ym mis Gorffennaf 2018. Cymerodd Helen Mary Jones ei le fel Aelod rhanbarthol Plaid Cymru dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru;
- Gadawodd Caroline Jones grŵp UKIP ym mis Medi 2018, gan ymuno â Phlaid Brexit yn ddiweddarach. Ymddiswyddodd o Blaid Brexit ym mis Awst 2020 i eistedd fel Annibynnwr. Ymunodd â grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio ym mis Hydref 2020;
- Bu farw Steffan Lewis ym mis Ionawr 2019. Cymerodd Delyth Jewell ei le fel Aelod Plaid Cymru dros Ddwyrain De Cymru;
- Gadawodd Michelle Brown grŵp UKIP ym mis Mawrth 2019 i eistedd fel Annibynnwr;
- Gadawodd David Rowlands grŵp UKIP ym mis Mai 2019 i ymuno â Phlaid Brexit. Ymunodd â grŵp y Gynghrair Annibynnol dros Ddiwygio ym mis Hydref 2020;
- Gadawodd Gareth Bennett grŵp UKIP ym mis Tachwedd 2019, yn gyntaf i eistedd fel Annibynnwr, cyn ymuno â Phlaid Diddymu'r Cynulliad ym mis Mehefin 2020;
- Bu farw Mohammad Asghar ym mis Mehefin 2020. Cymerodd Laura Ann Jones ei le fel Aelod y Ceidwadwyr dros Ddwyrain De Cymru;
- Ymddiswyddodd Nick Ramsay o grŵp y Ceidwadwyr ym mis Mawrth 2021 i eistedd fel Annibynnwr.

Nid yw newidiadau yn ystod pumed tymor y Senedd wedi'u hadlewyrchu yng ngweddill y papur hwn.

# 2. Crynodeb o ganlyniadau etholiad y Senedd yn 2021


Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi crynodeb o ganlyniadau'r etholiad, gan gynnwys gwybodaeth am fwyafrifoedd, amrywiaeth, Aelodau newydd a'r ganran a bleidleisiodd.

## Crynodeb o'r canlyniadau

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb lefel uchel o ganlyniadau etholiad y Senedd yn 2021. Gwneir cymariaethau â'r sefyllfa ar ôl yr etholiad yn 2016. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 3 o'r cyhoeddiad hwn.

Nid enillodd yr un blaid fwyafrif llwyr yn yr etholiad, ond llwyddodd y Blaid Lafur i gipio hanner y seddau a oedd ar gael. Dangosir dosbarthiad y seddau yn Ffigur 1 isod.

**Ffigwr 1: Cyfran y seddau yn 2021**



## Canlyniadau allweddol


### Tabl 1: Crynodeb o'r etholiad yn 2021 a newidiadau 2016-2021

| | Ceid | Llaf | DRh | PC | UKIP | Diddymu | PW | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Seddau** | | | | | | | | | |
| Seddau etholaethol | 8 | 27 | 0 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 40 |
| Seddau rhanbarthol | 8 | 3 | 1 | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 |
| **Cyfanswm y seddau a enillwyd** | 16 | 30 | 1 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60 |
| Newid ers 2016 | +5 | +1 | 0 | +1 | -7 | 0 | 0 | 0 | - |
| **Canlyniadau etholaethol** | | | | | | | | | |
| Pleidleisiau dilys | 289,802 | 443,047 | 54,202 | 225,376 | 8,586 | 18,149 | 17,817 | 54,751 | 1,111,730 |
| Cyfran ganrannol o'r bleidlais | 26.1% | 39.9% | 4.9% | 20.3% | 0.8% | 1.6% | 1.6% | 4.9% | 100.0% |
| Newid pwynt canran | +4.9% | +5.1% | -2.8% | -0.3% | -11.7% | +1.6% | -0.9% | +3.9% | - |
| **Canlyniadau rhanbarthol** | | | | | | | | | |
| Pleidleisiau dilys | 278,560 | 401,770 | 48,217 | 230,161 | 17,341 | 41,399 | 48,714 | 44,733 | 1,110,895 |
| Cyfran ganrannol o'r bleidlais | 25.1% | 36.2% | 4.3% | 20.7% | 1.6% | 3.7% | 4.4% | 4.0% | 100.0% |
| Newid pwynt canran | +6.3% | +4.7% | -2.1% | -0.1% | -11.4% | -0.6% | +1.4 | +2.0% | - |

- Enillodd Llafur 30 sedd, sef un yn fwy na 2016. Enillodd y blaid un sedd etholaethol (Rhondda) ac un sedd ranbarthol (Gogledd Cymru), a chollodd un sedd etholaethol (Dyffryn Clwyd);
- Enillodd y Ceidwadwyr 16 sedd, sef pump yn fwy na 2016. Enillodd y blaid ddwy sedd etholaethol (Brycheiniog a Sir Faesyfed a Dyffryn Clwyd), yn ogystal â thair sedd ranbarthol ychwanegol;
- Enillodd Plaid Cymru 13 sedd, sef un yn fwy na 2016. Collodd y blaid ei sedd yn Rhondda, sef sedd etholaethol a enillodd yn 2016. Enillodd ddau Aelod ychwanegol drwy'r bleidlais ranbarthol yng Nghanol De Cymru a Dwyrain De Cymru;
- Enillodd y Democratiaid Rhyddfrydol un sedd. Collodd y blaid sedd etholaethol Brycheiniog a Sir Faesyfed ac enillodd un aelod rhanbarthol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru;
- Collodd UKIP ei holl seddau o'r etholiad yn 2016, sef saith sedd ranbarthol.

Mae'r ffeithlun isod yn dangos dosbarthiad y seddau etholaethol a'r seddau rhanbarthol fesul plaid.

### Ffigwr 2: Seddau yn y Senedd fesul etholaeth a rhanbarth





## Canlyniadau'r etholaethau


Mae'r adran hon yn disgrifio cyfran gyffredinol y bleidlais yn yr etholaethau a newidiadau ers 2016.

- Cododd cyfran Llafur o'r bleidlais 5.1% o'i chymharu â 2016 (y cynnydd uchaf o ran pwyntiau canran);
- Cynyddodd cyfran y Ceidwadwyr o'r bleidlais hefyd, 4.9% o'i chymharu â 2016;
- Gostyngodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais 2.8%;
- Cyflwynodd Plaid Diddymu'r Cynulliad ymgeiswyr etholaethol am y tro cyntaf mewn etholiad Senedd, gan ennill 1.6% o'r bleidlais;
- Sicrhaodd y Blaid Werdd 1.6% o'r bleidlais hefyd, sef gostyngiad 0.9% o'i chymharu â 2016;
- Gostyngodd cyfran etholaethol Plaid Cymru o'r bleidlais 0.3% o'i chymharu â 2016;
- Gostyngodd cyfran UKIP o'r bleidlais hefyd, 11.7% yn is o'i chymharu â 2016;
- Enillodd pleidiau eraill 4.9% o'r bleidlais, 3.9% yn uwch o'i chymharu â 2016.

**Ffigwr 3: Cyfran o'r bleidlais yn ôl plaid**







## Canlyniadau'r rhanbarthau

Dangosir cyfran gyffredinol y bleidlais ranbarthol a'r newidiadau ers 2016 isod.

- Cynyddodd y Ceidwadwyr a'r Blaid Lafur eu cyfran o'r bleidlais, gan ei chynyddu 6.3% a 4.7%, yn y drefn honno;
- Sicrhaodd y Blaid Werdd 4.4% o'r bleidlais hefyd, sef cynnydd 1.4% o'i chymharu â 2016;
- Gostyngodd cyfran Plaid Cymru o'r bleidlais 0.1% o'i chymharu â 2016;
- Sicrhaodd Plaid Diddymu'r Cynulliad 3.7% o gyfran y bleidlais, sef gostyngiad 0.6%;
- Gostyngodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais 2.1%, ond enillodd y blaid sedd ranbarthol ar ôl colli sedd etholaethol Brycheiniog a Sir Faesyfed, drwy'r system Aelodau ychwanegol (a drafodir yn Adran 1);
- Yn dilyn gostyngiad 11.4% yn ei phleidlais ranbarthol o'i chymharu â 2016, collodd UKIP bob un o'r saith sedd ranbarthol a enillodd yn 2016;
- Pleidiau eraill oedd 4.0% o'r bleidlais, 2.0% yn uwch o'i chymharu â 2016.

## Mwyafrifoedd

**Ffigwr 4: Mwyafrif fesul etholaeth**




Y mwyafrif mwyaf mewn etholaeth, yn ôl cyfanswm y pleidleisiau, oedd yng Ngheredigion, lle y sicrhaodd Elin Jones y sedd dros Blaid Cymru gyda mwyafrif o 12,145 o bleidleisiau. Roedd y mwyafrif lleiaf yn ôl pleidleisiau yn etholaeth Dyffryn Clwyd, lle y sicrhaodd mwyafrif o 366 o bleidleisiau dros Gareth Davies fod y Ceidwadwyr yn ennill y sedd, gyda Llafur yn ail.

O ystyried mwyafrif yn berthynol i gyfran y bleidlais, ailetholwyd Mike Hedges yn Nwyrain Abertawe gyda mwyafrif o 45.0%, sef 60.1% o gyfan y bleidlais. Siân Gwenllian yn etholaeth Arfon enillodd gyfran fwyaf y bleidlais mewn etholaeth, sef 63.3% o'r bleidlais. Eto, Dyffryn Clwyd oedd â'r mwyafrif lleiaf yn ôl cyfran ganrannol y bleidlais, lle y sicrhaodd y Ceidwadwyr fwyafrif o 1.4% o'r bleidlais, dros y Blaid Lafur.

O ystyried cyfran y bleidlais yn rhanbarthol, cipiodd y Blaid Lafur fwyafrifoedd o 16.2%, 18.0% a 21.9% yng nghyfran y bleidlais yn Nwyrain De Cymru, Canol De Cymru a Gorllewin De Cymru, yn y drefn honno. Serch hyn, ni sicrhaodd Llafur seddau rhanbarthol o'r ardaloedd hyn oherwydd ei llwyddiannau yn etholaethau'r ardaloedd hynny dan system d'Hondt. Yr unig ardal lle ennillodd plaid arall gyfran fwy o'r bleidlais na Llafur oedd Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle roedd gan Blaid Cymru gyfran uwch o'r bleidlais na'r Ceidwadwyr.


## Amrywiaeth

Erbyn hyn, mae 26 o Aelodau sy'n fenywod, sef un yn fwy o'i chymharu â'r etholiad yn 2016. Mae hyn yn golygu bod 43% o'r holl Aelodau'n fenywod. Fodd bynnag, mae hyn yn is nag ar ddiwedd y Bumed Senedd – lle arweiniodd newidiadau aelodaeth at 29 o fenywod ac 31 o ddynion yn Aelodau cyn yr etholiad yn 2021.

Ers dechrau datganoli, mae canran y menywod a etholwyd i'r Senedd bob amser wedi bod ymhell uwchlaw'r **cyfartaledd byd-eang**, sef un o bob pedwar seneddwr. Bron 20 mlynedd yn ôl yn 2003, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, enw'r sefydliad ar y pryd, yn y penawdau **fel y ddeddfwrfa gyntaf yn y byd i ethol nifer gyfartal o fenywod a dynion i›w 60 sedd.** **Rhwng 2006 a 2007**, roedd mwy o fenywod yn Aelodau'r Cynulliad (a elwir bellach yn Aelodau o'r Senedd) na dynion (yn dilyn **Is-etholiad Blaenau Gwent** yn 2006). Ers hynny, mae canran y menywod a etholwyd yn Aelodau wedi gostwng, er ei bod bob amser wedi bod yn uwch na 40%.

Mae **amrywiad** sylweddol yng nghynrychiolaeth y rhywiau ar draws pleidiau gwleidyddol gwahanol yn 2021 – gyda menywod yn cynrychioli 57% o Aelodau Llafur o'r Senedd, 38% o Aelodau Plaid Cymru o'r Senedd a 19% o Aelodau'r Ceidwadwyr o'r Senedd. Mae unig Aelod y Democratiaid Rhyddfrydol o'r Senedd yn fenyw.

**Ffigwr 5: Nifer y menywod a'r dynion a etholwyd i'r Senedd yn 2021**




At ei gilydd, **470 o ymgeiswyr a safodd etholiad i'r Senedd yn 2021**. O'r rhain, roedd 322 (69%) yn ddynion a 148 (31%) yn fenywod. O'r ymgeiswyr etholaethol, roedd 220 (71%) yn ddynion, ac roedd 89 (29%) yn fenywod. Er bod 29% o ymgeiswyr etholaethol yn fenywod, roedd 43% o'r Aelodau a etholwyd i etholaethau yn yr etholiad yn 2021 yn fenywod. Ar y rhestrau rhanbarthol, roedd 223 (68%) o ymgeiswyr yn ddynion, a 104 (32%) yn fenywod. Er bod 32% o ymgeiswyr ar y rhestrau rhanbarthol yn fenywod, roedd 45% o'r Aelodau a etholwyd drwy'r rhestrau ranbarthol yn etholiad 2021 yn fenywod. Safodd rhai ymgeiswyr ar restr ranbarthol, yn ogystal â thros etholaeth, a dim ond unwaith y cawsant eu cyfrif yng nghyfanswm y ffigur.

Ar ôl etholiadau 2021, roedd gan Senedd Cymru ganran is o fenywod yn Aelodau na Senedd yr Alban am y tro cyntaf ers dechrau datganoli. Torrwyd record pan etholwyd **58 o fenywod** - 45% o'r holl Aelodau o Senedd yr Alban, gan gynnwys y ddwy fenyw groenliw gyntaf. Fodd bynnag, mae gan Senedd Cymru ganran uwch o fenywod wedi›u hethol na **Chynulliad Gogledd Iwerddon** (36%) a **Thŷ'r Cyffredin** (34%). Yn Senedd y DU, mae Aelodau Seneddol benywaidd yn cynrychioli 35% o etholaethau Cymru.

Mae **tri Aelod** o'r Senedd o leiafrif ethnig yn y Chweched Senedd - yr un nifer ag ar ôl yr etholiad yn 2016. Natasha Asghar AS yw'r fenyw groenliw gyntaf i gael ei hethol i'r Senedd. Mae hyn yn cymharu â 5.6% o boblogaeth Cymru, sydd o leiafrifoedd ethnig, **yn 2020**. Mae tipyn o amrywiad yng nghanran yr Aelodau o bleidiau gwleidyddol gwahanol sydd o gefndir lleiafrif ethnig – 13% o Aelodau'r

Ceidwadwyr o'r Senedd, 3% o Aelodau Llafur o'r Senedd a dim Aelodau o Blaid Cymru na'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae 10% o Aelodau Seneddol a etholwyd i **Dŷ'r Cyffredin** yn dod o gefndir lleiafrif ethnig, o'i chymharu â 13.2% o boblogaeth y DU **yn 2020**. Mae gan Senedd yr Alban **chwe Aelod** sydd o leiafrif ethnig, sef 4.7% o'r holl Aelodau, o'i chymharu â 5.3% o'i **phoblogaeth yn 2020**. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gynulliad Gogledd Iwerddon **ddim Aelod** sydd o leiafrif ethnig, o'i chymharu â 2.7% o'i **phoblogaeth yn 2020**.

Mae **gwybodaeth gyfyngedig a gasglwyd yn gyhoeddus** am amrywiaeth a chefndiroedd Aelodau o'r Senedd, sy'n **ei gwneud yn anodd cael gwybod pa mor amrywiol yw'r Senedd mewn gwirionedd**. Er enghraifft, nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu na›i chyhoeddi am nifer yr Aelodau o'r Senedd sydd ag anabledd.

## Aelodau newydd o'r Senedd


Mae 20 Aelod newydd yn y Chweched Senedd. Mae hyn yn cynnwys saith Aelod etholaethol newydd, drwy gyfuniad o seddau'n newid dwylo ac Aelodau'n rhoi'r gorau i'w sedd. Newidiodd etholaethau Brycheiniog a Sir Faesyfed, Rhondda a Dyffryn Clwyd ddwylo, gyda'r Ceidwadwyr yn ennill ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed a Dyffryn Clwyd, tra dychwelodd Rhondda i'r Blaid Lafur ar ôl i'r sedd ogwyddo i Blaid Cymru yn 2016.

O'r 20 Aelod rhanbarthol, mae 12 ohonynt yn Aelodau newydd sbon. Yn ogystal, dychwelwyd Altaf Hussain, fel Aelod rhanbarthol, ar ôl cynrychioli Gorllewin De Cymru rhwng 2015 a 2016 yn y Bedwaredd Senedd.

## Y ganran a bleidleisiodd

Roedd mwy na 2.3 miliwn[2] o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio adeg yr etholiad yn 2021. O hyn, pleidleisiodd mwy nag 1.1 miliwn o bobl. Yn seiliedig ar bleidleisiau dilys, y ganran a bleidleisiodd oedd 46.6%[3].

**Tabl 2: Y ganran a bleidleisiodd yn Etholiadau Cyffredinol y DU, Etholiadau Llywodraeth Leol Cymru ac Etholiadau'r Senedd, rhwng 1999 a 2021**




Ffynhonnell: Mae canlyniadau etholiadau hanesyddol yn seiliedig ar wybodaeth o'r **Comisiwn Etholiadol a Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin**.


Er mai'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad 2021 yw'r uchaf ers sefydlu'r Senedd, mae'r ganran a bleidleisiodd wedi parhau i fod yn is na 50% ym mhob etholiad ers 1999. Mae cymharu'r ganran a bleidleisiodd yn etholiad 2021 â blynyddoedd blaenorol hefyd yn gymhleth oherwydd yr etholwyr estynedig a nifer y pleidleiswyr cymwys 16 a 17 oed. Nid oes data ar gael eto ar y ganran a bleidleisiodd ar gyfer pleidleiswyr 16 a 17 oed.

[2] Pan fo ar gael, mae nifer y pleidleisiau a fwriwyd wedi'i chymryd o wybodaeth a roddwyd gan awdurdodau lleol drwy Swyddogion Canlyniadau, a'i chadarnhau drwy ddefnyddio data gan y BBC.
[3] Mae sawl ffordd o gyfrifo'r ganran a bleidleisiodd mewn etholiadau:

- mae canran y pleidleisiau dilys yn seiliedig ar nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd;
- mae'r ganran a bleidleisiodd yn ôl y blychau pleidleisio'n seiliedig ar nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd, ynghyd â'r rhai a wrthodwyd yn y cyfrif;
- mae cyfanswm y ganran a bleidleisiodd yn seiliedig ar nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd, ynghyd â'r rhai a wrthodwyd yn y cyfrif a'r rhai a wrthodwyd yn y broses gadarnhau pleidleisiau drwy'r post.

Ar gyfer y ganran a bleidleisiodd, mae'r papur hwn yn defnyddio ffigurau sy'n seiliedig ar y dull cyfrifo pleidleisiau dilys.

**Ffigwr 6: Y ganran a bleidleisiodd yn yr etholaeth**




Ar lefel etholaeth, yng Ngogledd Caerdydd oedd y ganran fwyaf a bleidleisiodd, sef 58.1%, ac ym Merthyr Tudful a Rhymni oedd y ganran isaf, sef 34.8%. Mewn 14 o'r 40 etholaeth, bwriodd mwy na 50% o'r etholwyr bleidleisiau dilys.

Cafwyd gostyngiad yn y ganran a bleidleisiodd ers etholiad 2016 mewn deg etholaeth, a'r gostyngiad mwyaf oedd -3.7% ym Merthyr Tudful a Rhymni. Roedd

y cynnydd mwyaf yn y ganran a bleidleisiodd yn Nwyfor Meirionnydd, sef 5.6% yn uwch nag yn 2016.

**Ffigwr 7: Y ganran a bleidleisiodd yn rhanbarthol, 2016 a 2021**



| Y ganran a bleidleisiodd yn | Gogledd Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Canol De Cymru | Dwyrain De Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| 2021: | **46.4%** | **52.8%** | **43.7%** | **48.1%** | **41.7%** |
| 2016: | 43.5% | 50.6% | 43.2% | 46.7% | 41.9% |
| Newid mewn pwyntiau canran: | +2.9% | +2.2% | +0.6% | +1.4% | -0.2% |

Yn rhanbarthol, yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru oedd y ganran fwyaf a bleidleisiodd, sef 52.8%, tra yn Nwyrain De Cymru oedd y ganran isaf, sef 41.7%.

Dim ond mewn un o'r pum rhanbarth y cafwyd gostyngiad yn y ganran a bleidleisiodd ers etholiad 2016, sef Dwyrain De Cymru a oedd -0.2% yn is na 2016. Roedd y cynnydd mwyaf yn y ganran a bleidleisiodd yng Ngogledd Cymru a oedd 2.9% yn uwch na phum mlynedd yn ôl.

# 3. Canlyniadau manwl yr etholiad

Mae'r adran hon yn cynnwys y data canlyniadau etholiad manwl, wedi'u coladu ar draws nifer o dablau. Sylwch efallai na fydd rhywfaint o'r cyfansymiau'n cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

## Tabl 3: Crynodeb pleidleisio

| Pleidlais etholaethol (yn ôl pleidleisiau) | | Pleidleisiau | Cyfran % | Newid ym mhwynt % o'r gyfran | ASau a etholwyd | newid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | | 443,047 | 39.9% | +5.2% | 27 | 0 |
| Ceidwadwyr | | 289,802 | 26.1% | +5.0% | 8 | 2 |
| Plaid Cymru | | 225,376 | 20.3% | -0.2% | 5 | -1 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | 54,202 | 4.9% | -2.8% | 0 | -1 |
| Diddymu | | 18,149 | 1.6% | +1.6% | 0 | 0 |
| Y Blaid Werdd | | 17,817 | 1.6% | -0.9% | 0 | 0 |
| UKIP | | 8,586 | 0.8% | -11.7% | 0 | 0 |
| Arall | | 54,751 | 4.9% | +3.9% | 0 | 0 |

| Pleidlais ranbarthol (yn ôl pleidleisiau) | | Pleidleisiau | Cyfran % | Newid ym mhwynt % o'r gyfran | ASau a etholwyd | newid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | | 401,770 | 36.2% | +4.7% | 3 | 1 |
| Ceidwadwyr | | 278,560 | 25.1% | +6.3% | 8 | 3 |
| Plaid Cymru | | 230,161 | 20.7% | -0.1% | 8 | 2 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | 48,714 | 4.4% | +1.4% | 0 | 0 |
| Diddymu | | 48,217 | 4.3% | -2.1% | 1 | 1 |
| Y Blaid Werdd | | 41,399 | 3.7% | -0.6% | 0 | 0 |
| UKIP | | 17,341 | 1.6% | -11.5% | 0 | -7 |
| Arall | | 44,733 | 4.0% | +2.0% | 0 | 0 |

| Cyfanswm y pleidleisiau etholaethol a rhanbarthol (yn ôl nifer pleidleisiau) | | Pleidleisiau | Cyfran % | Newid ym mhwynt % o'r gyfran | ASau a etholwyd | newid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llafur | | 844,817 | 38.0% | +4.9% | 30 | 1 |
| Ceidwadwyr | | 568,362 | 25.6% | +5.6% | 16 | 5 |
| Plaid Cymru | | 455,537 | 20.5% | -0.2% | 13 | 1 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | | 102,419 | 4.6% | -2.5% | 1 | 0 |
| Diddymu | | 66,531 | 3.0% | +0.3% | 0 | 0 |
| Y Blaid Werdd | | 59,548 | 2.7% | +0.5% | 0 | 0 |
| UKIP | | 25,927 | 1.2% | -11.6% | 0 | -7 |
| Arall | | 99,484 | 4.5% | +2.9% | 0 | 0 |

## Table 4: Canlyniadau'r etholaethau

| | Plaid | | Pleidleisiau | | | | | | | Is-gyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016 | 2021 | Ceid | Llaf | DRh | PC | UKIP | Diddymu | PW | Arall | Cyfanswm | Mwyafrif |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| **Brycheiniog a Sir Faesyfed** | | | 12,741 | 4,980 | 8,921 | 2,075 | 0 | 1,209 | 1,556 | 633 | 32,115 | 3,820 |
| **Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr** | | | 7,751 | 8,448 | 975 | 15,261 | 0 | 0 | 0 | 818 | 33,253 | 6,813 |
| **Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro** | | | 11,240 | 10,304 | 1,224 | 6,615 | 982 | 0 | 0 | 1,290 | 31,655 | 936 |
| **Ceredigion** | | | 4,801 | 3,345 | 3,227 | 16,946 | 0 | 0 | 1,356 | 1,080 | 30,755 | 12,145 |
| **Dwyfor Meirionnydd** | | | 4,394 | 3,702 | 916 | 11,490 | 0 | 0 | 0 | 3,312 | 23,814 | 7,096 |
| **Llanelli** | | | 4,947 | 13,930 | 606 | 8,255 | 722 | 0 | 0 | 1,758 | 30,218 | 5,675 |
| **Sir Drefaldwyn** | | | 12,013 | 3,576 | 4,207 | 4,485 | 0 | 0 | 0 | 706 | 24,987 | 7,528 |
| **Preseli Sir Benfro** | | | 12,295 | 10,895 | 952 | 6,135 | 0 | 0 | 0 | 1,239 | 31,516 | 1,400 |
| **Gogledd Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| **Aberconwy** | | | 9,815 | 5,971 | 735 | 6,479 | 0 | 0 | 0 | 543 | 23,543 | 3,336 |
| **Alun a Glannau Dyfrdwy** | | | 8,244 | 12,622 | 1,584 | 1,886 | 898 | 0 | 0 | 609 | 25,843 | 4,378 |
| **Arfon** | | | 1,806 | 5,108 | 642 | 13,760 | 0 | 0 | 0 | 432 | 21,748 | 8,652 |
| **De Clwyd** | | | 7,535 | 10,448 | 730 | 4,094 | 522 | 599 | 0 | 277 | 24,205 | 2,913 |
| **Gorllewin Clwyd** | | | 11,839 | 8,154 | 1,158 | 5,609 | 520 | 502 | 0 | 581 | 28,363 | 3,685 |
| **Delyn** | | | 9,135 | 12,846 | 1,094 | 2,097 | 862 | 0 | 0 | 409 | 26,443 | 3,711 |
| **Dyffryn Clwyd** | | | 10,792 | 10,426 | 782 | 2,972 | 0 | 0 | 0 | 1,081 | 26,053 | 366 |
| **Wrecsam** | | | 7,102 | 8,452 | 755 | 4,832 | 378 | 790 | 0 | 297 | 22,606 | 1,350 |
| **Ynys Môn** | | | 5,689 | 5,300 | 547 | 15,506 | 0 | 0 | 0 | 692 | 27,734 | 9,817 |
| **Canol De Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| **Canol Caerdydd** | | | 3,788 | 13,100 | 5,460 | 3,470 | 0 | 440 | 1,552 | 722 | 28,532 | 7,640 |

| | Plaid | | Pleidleisiau | | | | | | | Is-gyfanswm | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Caerdydd** | | | 12,755 | 19,348 | 1,641 | 3,278 | 0 | 990 | 1,957 | 686 | 40,655 | 6,593 |
| **De Caerdydd a Phenarth** | | | 7,547 | 18,153 | 1,402 | 4,957 | 576 | 732 | 1,643 | 1,376 | 36,386 | 10,606 |
| **Gorllewin Caerdydd** | | | 6,454 | 17,665 | 803 | 5,897 | 0 | 682 | 1,287 | 3,743 | 36,531 | 11,211 |
| **Cwm Cynon** | | | 2,795 | 11,427 | 335 | 3,959 | 0 | 648 | 0 | 1,347 | 20,511 | 7,468 |
| **Pontypridd** | | | 5,658 | 11,511 | 628 | 6,183 | 0 | 785 | 655 | 2,136 | 27,556 | 5,328 |
| **Rhondda** | | | 1,490 | 12,832 | 200 | 7,335 | 0 | 430 | 0 | 1,171 | 23,458 | 5,497 |
| **Bro Morgannwg** | | | 15,397 | 18,667 | 994 | 3,699 | 0 | 1,394 | 1,262 | 1,479 | 42,892 | 3,270 |
| **Dwyrain De Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| **Blaenau Gwent** | | | 2,611 | 10,226 | 333 | 3,588 | 0 | 1,364 | 0 | 2,695 | 20,817 | 6,638 |
| **Caerffili** | | | 5,013 | 13,289 | 787 | 8,211 | 0 | 1,119 | 0 | 495 | 28,914 | 5,078 |
| **Islwyn** | | | 3,894 | 9,962 | 476 | 3,930 | 507 | 568 | 0 | 5,144 | 24,481 | 5,239 |
| **Merthyr Tudful a Rhymni** | | | 2,665 | 13,009 | 420 | 3,698 | 382 | 656 | 0 | 324 | 21,154 | 9,311 |
| **Mynwy** | | | 15,332 | 11,487 | 1,892 | 2,085 | 0 | 1,174 | 2,000 | 1,913 | 35,883 | 3,845 |
| **Dwyrain Casnewydd** | | | 7,315 | 10,899 | 1,574 | 1,844 | 368 | 660 | 0 | 489 | 23,149 | 3,584 |
| **Gorllewin Casnewydd** | | | 10,353 | 14,259 | 882 | 2,076 | 0 | 0 | 1,314 | 714 | 29,598 | 3,906 |
| **Torfaen** | | | 6,251 | 11,572 | 1,180 | 2,564 | 895 | 0 | 0 | 1,491 | 23,953 | 5,321 |
| **Gorllewin De Cymru** | | | | | | | | | | | | |
| **Aberafan** | | | 2,947 | 10,505 | 953 | 4,760 | 407 | 646 | 0 | 1,951 | 22,169 | 5,745 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | | 8,324 | 12,388 | 782 | 3,091 | 0 | 0 | 0 | 4,876 | 29,461 | 4,064 |
| **Gŵyr** | | | 10,836 | 15,631 | 869 | 3,946 | 0 | 0 | 1,088 | 794 | 33,164 | 4,795 |
| **Castell-nedd** | | | 4,107 | 11,666 | 395 | 6,445 | 0 | 751 | 1,038 | 3,176 | 27,578 | 5,221 |
| **Ogwr** | | | 4,579 | 12,868 | 441 | 4,703 | 0 | 660 | 0 | 1,243 | 24,494 | 8,165 |
| **Dwyrain Abertawe** | | | 2,947 | 12,950 | 1,055 | 3,250 | 567 | 484 | 0 | 295 | 21,548 | 9,700 |
| **Gorllewin Abertawe** | | | 4,605 | 11,126 | 1,645 | 3,910 | 0 | 866 | 1,109 | 734 | 23,995 | 6,521 |

**Tabl 5: Canlyniadau'r etholaethau, newid yng nghyfran y bleidlais, nifer yr etholwyr a'r ganran a bleidleisiodd yn 2021**

| | Plaid | | % o'r bleidlais | | | | | | Is-gyfanswm | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016 | 2021 | Ceid | Llaf | DRh | PC | UKIP | Diddymu | PW | Arall | Etholwyr | % a bleidleisiodd |
